

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Tachwedd 6ed, 2014 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr John Williams, (Cadeirydd); Ifor Wyn Davies, (Is gadeirydd); Aled Lloyd Evans; Trefor Wyn Jones; William Ifor Hughes; Thomas Prys Jones; Dafydd Williams; Naomi Jones; Brian W Ifans; Anwen Jones; Alwen Evans; Marian Evans; Elis Gwyn Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau; Y Cyngorwyr Margaret Griffith a Gwilym M Thomas.
2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod Hydref 2il, 2014 gydag un cywiriad rhif 6 Cyngor Gwynedd, Ceisiadau Cynllunio, rhif 4, gosod paneli ar strwythur *pren*.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.
5. Cyngor Gwynedd.
  1. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn; Seminar: Datblygu'r fersiwn Adnau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Ar ôl trafodaeth, cytunodd y Cyngorydd Aled Lloyd Evans fynd i'r cyfarfod yn Frondeg, Pwllheli ddydd Mawrth, Tachwedd 11eg.
  2. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant; Cyfrif y nifer sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd 2014. Doedd y Cyngorwyr ddim yn gwybod am neb sy'n cysgu ar y stryd yn y gymuned hon a gofynnwyd i'r holiadur gael ei lenwi i ddweud hynny.
6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned
  1. Cais rhif: C14/0726/41/LL – Dymchwel garej presennol a chodi garej newydd yn ei le; Gernant, Llangybi. Penderfynwyd cefnogi.
  2. Cais rhif: C14/1053/41/LL – Codi estyniad unllawr i ochr/cefn yr eiddo a gosod porth a ffenestr do ar yr edrychiad blaen; Ty'n Lon, Rhydybenllig. Cefnogwyd.
7. Arolwg blynyddol offer Cae Chwarae Llangybi. Wedi anfon copi o'r adroddiad drwy e bost yr un pryd â rhaglen cyfarfod mis Hydref. Penderfynwyd gofyn i Mr Clifford Hughes wneud y gwaith glanhau matiau ac i'r Clerc gysylltu â chwmni GLJones Ltd., Bethesda ynghylch cael cap ar y sgrïw ar y siglen fach.
8. Siarter Iaith Cyngor Gwynedd. Bydd Ms Gwenan Ellis Jones yn dod i gyfarfod mis Rhagfyr o'r Cyngor. Derbyniwyd.
9. Gohebiaeth oddi wrth Gartrefi Cymunedol Gwynedd. Penderfynwyd derbyn yr ateb bod y siop addurno Dulux agosaf yn Llandudno, bod y gwasanaeth dosbarthu am ddim ac nad oedd rheidrwydd i denantiaid CCG deithio i Landudno i nôl deunyddiau addurno.
10. Gwasanaeth teithiol banc y Nat West yng Nghricieth. Penderfynwyd rhoi'r wybodaeth yn Y Ffynnon, bod y banc yn ymweld â'r maes parcio tu ôl i'r Stryd Fawr yng Nghricieth bob dydd Iau, rhwng unarddeg y bore a chwarter i hanner dydd. Gofynnwyd i'r Clerc ohebu gyda banc y Nat West i ofyn iddynt pam nad ydynt wedi hysbysebu'r gwasanaeth yn lleol.

### 11. Materion yn y gymuned.

Penderfynwyd cysylltu gydag adrannau perthnasol Cyngor Sir Gwynedd ynghylch y canlynol:

Rhoslan a'r Ynys

Dwy gwter wedi cau ac o'r golwg gan faw a thyfiant o flaen Tŷ a Chapel y Beirdd. Pe bai yna law trwm gallai dŵr fynd i'r tŷ.

### Llanystumdwy

1. Dim digon o finiau dal baw cŵn yn yr ardal. Cynnig rhoi bin ar y lôn gefn, un ai hanner ffordd rhwng Llanystumdwy a Chricieth rhwng Cefn y Maen a Fferm Bron Eifion neu ar y llwybr cerdded/beic rhwng Llanystumdwy a Chricieth, wrth ymyl mynedfa Gwesty Bron Eifion neu ar gyrion tref Cricieth. Gofynnwyd i gopi o'r llythyr ynghylch hyn gael ei anfon at Gyngor Tref Cricieth.

2. Gor dyfiant llwyni Sŵn yr Afon ger pont y pentref. Maent yn gwyro dros y palmant ac yn destun pryder i gerddwyr.

### Chwilog

1. Gwendid ar y ffordd a'i bod yn rhoi dros y dibyn rhwng pen lôn Ysgubor Hen a Talar Deg.

2. Biniâu ar Lôn Y Plas. Tri bag yn unig mae'r lori yn ei glirio heb sylweddoli bod tri annedd yn mynd â'u bagiau sbwriel i ben Lôn y Plas ac felly dylai naw bag gael ei glirio.

### Llangybi

12a. Materion heb gael ymateb iddynt.

Cyngor Gwynedd, Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Trafnidiaeth a gofal Stryd; Ail asesu blaenoriaeth trafniadaeth yng Ngroeslon Penybryn, Rhydycroesau ac ail asesu blaenoriaeth trafniadaeth ar groeslon Tyddyn Sianel. Derbyniwyd y wybodaeth y bydd newid blaenoriaeth ar Groeslon Penybryn ond bod angen aros nes bydd digon o waith yn yr ardal i gyfiawnhau anfon gweithlu; bod arwydd newydd wedi cael ei archebu ar gyfer gyferbyn â thŷ Aelybryn, ni fydd newid blaenoriaeth yma.

b. Holiadur Anghenion Tai yn Ward Llanarmon a Llanystumdwy. Derbyniwyd adroddiad fer Mr Arfon Hughes, bod 103 wedi eu dychwelyd allan o 400 o holiaduron rannwyd yn Ward Llanarmon; bod 25 wedi eu dychwelyd allan o tua 105 o holiaduron rannwyd yn Llanystumdwy. Bydd cofnod lawn o adroddiad Mr Hughes ar ôl iddo gael cyfle i ddadansoddi'r wybodaeth gafwyd.

### **Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.**

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

